# PECYN ADNODDAU

## GORNEST LYFRAU 2026



Blwyddyn 5–6

# Cynnwys


**Llyfr Sgrap Macs Sion** 3
Adnabod Awdur – Mari Lovgreen 5

**Bwyd y Stryd, Bwyd y Byd** 7
Adnabod Awdur – Gail Sequeira 9

**Gerwyn Gwrthod** 11
Adnabod Awdur – Siôn Tomos Owen 13

**Gwen ac Arianrhod** 15
Adnabod Awdur – Lleucu Gwenllian 17


**Zac a Jac** 19
Adnabod Awdur – Cathy Jenkins 21

**ABC yr Opera: Academi Benwan y Cyfansoddwyr – Clasurol** 23
Adnabod Awdur – Mark Llewelyn Evans 25

















## Llyfr Sgrap Macs Sion

**Mari Lovgreen**

Y Lolfa | 978-1-800996-80-9


Dyma lyfr sgrap boncyrs Macs Sion – llyfr llawn cyfrinachau a breuddwydion… rhestrau a phranciau… dŵdls a jôcs… snot a pw! Cawn fynd ar daith gydag ef i'r eisteddfod gylch, i Langrannog ac ar ei ddêt cyntaf… Os wyt ti'n hoffi Pokemon a Roblox ac yn casáu dawnsio gwerin… dyma'r llyfr i ti!

### Cwestiynau trafod sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad


- Ydych chi'n cadw dyddiadur?
- Ydych chi wedi creu llyfr sgrap?
- Beth ydych chi'n meddwl o'r darluniadau yn y llyfr?
- Mae yna lawer o hiwmor yn y llyfr – ydych chi'n gallu dod o hyd i enghreifftiau? Beth mae hiwmor yn ei ychwanegu i'r stori?
- Ydych chi'n hoffi Macs fel prif gymeriad y stori?
- Mae Macs yn cynnwys jôcs yn ei lyfr sgrap. Ydych chi wedi darllen llyfr jôcs? Oes gennych chi hoff un?
- Beth am chwarae gêm o 'Hwn neu'r Llall'?
- Mae gan Macs rysáit cacennau *rice crispies* siocled yn ei lyfr sgrap. Ydych chi'n hoffi coginio neu bobi? Pa fath o bethau ydych chi wedi'u gwneud?
- Beth am ysgrifennu rhestr o '15 cwestiwn randym', fel Macs?
- Beth am gwblhau cwis mathemateg Macs ar dudalen 48? Ydych chi'n gallu gwneud heb gyfrifiannell, fel mae o'n dweud wrth Cai am wneud?

### Gweithgareddau sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

Beth am greu llyfr sgrap eich hun? Gallwch wneud un mewn arddull tebyg i Macs, neu rywbeth hollol wahanol. Cofiwch gynnwys darluniadau neu luniau yn eich llyfr sgrap.



**Neu:**
Beth am greu pypedau o'r cymeriadau yn y llyfr, a gwneud sioe bypedau? Gallwch wneud hynny mewn grwpiau bach ac ysgrifennu sgript i gyd-fynd â'ch sioe. Gallwch ddefnyddio cardfwrdd, papur neu/ac adnoddau eraill sydd ar gael yn yr ysgol.




### Wedi mwynhau *Am Gymro*? Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?

- *Llwybr Llanast* – Burhana Islam – Graffeg
- *Dicw Dwm-bo* – Sioned Wyn Roberts – Y Lolfa
- *Marf a'r Robot Mawr* – Alex Falase-Koya – Atebol
- *Chwedlau'r PySgwod* – Anni Llŷn – Gwasg Carreg Gwalch
- *Gerwyn Gwrthod a'r Llyfr Does Neb yn Cael ei Ddarllen* – Siôn Tomos Owen – Atebol

Adnabod Awdur

# Mari Lovgreen



**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?** Geni ym Mangor, magu yng Nghaernarfon.
**Ble aethoch chi i'r ysgol?** Ysgol y Gelli a Syr Hugh Owen.
**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?** Hoffi gweld ffrindiau, cymdeithasu, Cymraeg, Saesneg, Celf ac ymarfer corff. Ddim yn mwynhau gwersi Ffiseg o gwbl – gweld hi'n anodd iawn deall y gwaith!
**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?** Gweithiwr cymdeithasol. Ro'n i'n gwybod y byswn i eisiau gweithio efo pobl, yn bendant.
**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?** Wnes i ddisgyn mewn cariad efo llyfrau Tracy Beaker – y llyfrau cyntaf i mi fod yn hollol *hooked* arnyn nhw.
**Beth yw eich diddordebau?** Cymdeithasu efo teulu a ffrindiau, a mynd allan am fwyd.
**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?** Gwiriondeb a diniweidrwydd fy mhlant sy'n 8 a 10 oed.
**Beth sy'n eich gwylltio chi?** Pobl feirniadol.
**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?** Dwi wastad wedi mwynhau ysgrifennu ers 'mod i yn yr ysgol gynradd. Ges i awydd i greu llyfr gwirion Cymraeg i blant, o weld fod fy mhlant yn gyndyn o droi at lyfrau Cymraeg, ac yn ei chael hi'n anodd i ddeall addasiadau yn enwedig.
**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?** Gweld beth sy'n gwneud i fy mhlant chwerthin!
**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?** Dwi'n credu'n gryf fod angen mwy o trash hawdd ei ddarllen ar gyfer ein plant yn y Gymraeg. Gan fod addasiadau mor boblogaidd, dwi hefyd wrth fy modd yn dod ag elfennau cwbl Gymreig i'r testun, er mwyn i'r Cymro a'r Gymraes fach allu uniaethu efo'r cynnwys.
**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?** Paid â gorfeddwl – cer amdani! A chofia mai deuparth gwaith yw ei ddechrau, felly *go go go*!
**Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn awdur?** Y peth gorau i fi ydi derbyn ymateb gan blant a rhieni dros Gymru, yn enwedig gan blant sydd ddim yn mwynhau darllen fel rheol. Y peth gwaethaf ydi fod yna ddim digon o bobl yn prynu llyfrau Cymraeg.

# Cwestiynau Cyflym

Hoff lyfr o'ch plentyndod?

The Diary of Tracy Beaker – Jacqueline Wilson.

Hoff gymeriad o lyfr?

Wil Cwac Cwac.

Superpower o ddewis?

Ddim yn wreiddiol iawn, ond pa mor cŵl fysa gallu hedfan?!

Beth sy'n gwneud i chi wenu?

Ysgrifennu am pw.

Hoff ffilm/rhaglen deledu?

Ffilm – *Titanic*
Rhaglen – *The Office*

Hoff air?

Cwsg.

Hoff le?

Amhosib dewis un, ond mae Caernarfon yn agos iawn at fy nghalon.

Swydd tasech chi ddim yn awdur? Swydd ddelfrydol?

Critic bwyd yn mynd o amgylch bwytai gorau'r wlad.

Top tip i ddarpar awduron?

Dydw i ddim yn galw fy hun yn awdur, felly dwi ddim yn teimlo 'mod i'n gymwys i gynnig tips, heblaw ewch amdani – mae bendant angen mwy o awduron amrywiol Cymraeg!

Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?

Instagram.




## Bwyd y Stryd, Bwyd y Byd

**Gail Sequeira**

Atebol | 978-1-801064-53-8

Pan mae gardd hyfryd yr ysgol dan fygythiad, mae'n bryd i Glwb Garddio Mr Thomas weithredu! Does dim amdani ond cynnal gŵyl o fwyd y stryd i'r gymuned er mwyn codi arian. Mae'r plant yn dod o hyd i ryseitiau o ddiwylliant eu teuluoedd ac yn defnyddio cynnyrch yr ardd i greu bwydydd o bob cwr o'r byd. Rhan o gynllun Rhyngom.

### Cwestiynau trafod sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad


- Ydych chi wedi trio unrhyw un o'r bwydydd sydd yn y llyfr? Pa un? Oeddech chi'n ei hoffi?
- Pa ryseitiau hoffech chi eu trio a pham?
- Oes gennych chi hoff fwyd?
- Mae'r llyfr yn dathlu cymuned a diwylliant. Beth sy'n dod i'ch meddwl pan ydych chi'n clywed y geiriau hynny?
- Beth ydych chi'n meddwl yw neges y stori?
- Ydych chi wedi bod i un o'r gwledydd sy'n cael ei dathlu yn y llyfr? Neu oes gwlad hoffech chi ymweld â hi a pham?
- Pa fwydydd eraill o Gymru sy'n enwog? Allwch chi wneud rhestr? Gallwch ddewis gwlad arall hefyd, wrth gwrs.
- Ydych chi wedi bod i ŵyl fwyd o'r blaen?
- Pa fath o wyliau eraill ydych chi'n gwybod amdanyn nhw?
- Pe baech chi a'ch ffrindiau'n trefnu gŵyl, pa fath o ŵyl fyddech chi'n ei dewis a pham?

## Gweithgareddau sy’n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

Mae llawer o ryseitiau yn y llyfr. Beth am roi cynnig ar wneud un neu fwy ohonyn nhw yn yr ysgol neu gartref? Cofiwch fod rhaid mesur y cynhwysion a dilyn y cyfarwyddiadau’n fanwl.



**Neu:**
Edrychwch ar y map ar ddechrau’r llyfr. Beth am wneud gwaith ymchwil i ddarganfod mwy am ddiwylliannau’r byd ac ychwanegu ffeithiau. Neu, allwch chi ddylunio map eich hun a chynnwys allwedd i helpu pobl i’w ddefnyddio?



## Wedi mwynhau *Bwyd y Stryd, Bwyd y Byd?*
## Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?

- *Cegin Mr Henry* – Lloyd Henry – Atebol
- *Cymru ar y Map: Llyfr Gweithgaredd* – Tanwen Haf – Rily
- *Mari a Mrs Cloch* – Caryl Lewis – Y Lolfa
- *Pawb a Phopeth: Byd y Gymraeg/World of Welsh* – Elin Meek – Rily
- *Cyfres Genod Gwyrdd* – Holly Webb – Rily

Adnabod Awdur

# Gail Sequeira



**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?** Yn India. Cefais fy ngeni yn Bombay, ond dwi wedi byw yn Delhi, Chandigarh, Vishakapatnam, Mangalore, Bangalore a Goa.
**Ble aethoch chi i'r ysgol?** Bombay, Delhi, Chandigarh, Vishakapatnam a Mangalore.
**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?** Llyfrgell yr ysgol oedd fy hoff le, a hynny ymhob un o'r ysgolion. Dwi'n freuddwydiwr, a gwersi'r prynhawn oedd y peth gwaethaf, oherwydd roeddwn i'n breuddwydio bum munud ar ôl i'r athro neu athrawes ddechrau siarad.
**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?** Saer coed.
**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?** *Little Women*.
**Beth yw eich diddordebau?** Ysgrifennu, garddio, coginio, nofio, cerdded, bwyta, a chanu'r piano (yn wael).
**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?** Yn 2021, pan ysgrifennais i fy llyfr cyntaf.
**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?** Gwrth-hiliaeth, cydraddoldeb mewn amrywiaeth, cydweithio, cefnogi ein gilydd, natur a'r amgylchedd.
**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?** Ysgrifennwch i chi eich hun, a phan ddaw'n adeg cyhoeddi, peidiwch ildio.
**Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn awdur?** Y rhan orau yw ymgolli mewn byd dwi wedi ei greu. Y rhan waethaf yw pobl yn gofyn i fi, ar ôl deall fy mod i wedi cyhoeddi llyfr, pa lyfr sydd ar y gweill nesaf.

# Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**

The Exiles gan Hilary McKay.

**Hoff gymeriad o lyfr?**

Phoebe yn The Exiles.

**Superpower o ddewis?**

y gallu i fynd yn gorfforol i unrhyw le heb orfod teithio (teleportation).

**Hoff fwyd?**

Roti Chenai.

**Hoff le i ysgrifennu?**

Fy ngwely.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**

Anifeiliaid hapus yn bod yn ddrwg.

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**

Somebody Feed Phil.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**

Instagram.

**Swydd tasech chi ddim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**

Diflas.

**Top tip i ddarpar awduron?**

Ysgrifennwch i chi eich hun bob amser, a phan ddaw'n adeg cyhoeddi, peidiwch ildio.




## Gerwyn Gwrthod

**Siôn Tomos Owen**

Atebol | 978-1-801065-55-9

Dyw Gerwyn ddim yn hoffi darllen o gwbl. Un diwrnod, a Gerwyn ar ei wyliau, mae'n crwydro trwy ddrws siop go wahanol. Does dim llyfrau yma, heblaw am hen un mawr mewn cas gwydr. Mae Gerwyn yn agor y llyfr ar y slei ac yn sydyn yn cael ei lyncu i mewn iddo. Mae'n deffro mewn gwlad anghyfarwydd ac yn cael pob math o anturiaethau gwyllt a gwallgof.

### Cwestiynau trafod sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Mae'r awdur wedi defnyddio cyflythreniad ar gyfer enw'r prif gymeriad a theitl y llyfr. Ydych chi'n gallu meddwl am rywbeth tebyg ar gyfer eich enw chi neu enw ffrind?
- Mae llawer o ddarluniadau yn y llyfr. Oes gennych chi ffefryn? Pam? Ydych chi'n gallu ail-greu un o'r darluniadau neu ddychmygu golygfa arall o'r llyfr a chreu llun eich hunan?
- Ym mhennod 4, rydyn ni'n dysgu pam dydy Gerwyn ddim yn hoffi darllen. Beth am drafod sut mae Gerwyn yn teimlo ar ôl gorfod darllen gyda'i hen hen fodryb? Sut fyddech chi'n ymateb i ffrind sy'n teimlo'n ddihyder? Sut gallwn ni ddangos cyfeillgarwch a charedigrwydd?
- Weithiau, mae teulu Gerwyn yn cael 'gwyliaros' ac yn mynd ar drip yng Nghymru. Tasech chi'n gwneud yr un peth, i le fyddech chi'n mynd a pham?
- Beth ydy prif themâu'r llyfr? Sut fyddech chi'n disgrifio'r llyfr i rywun arall?

- Sut fyddech chi'n disgrifio Gerwyn? Sut mae e'n newid yn ystod y stori? Beth am y cymeriadau eraill? Oes gennych chi hoff un?
- Sut mae hiwmor yn ychwanegu at y nofel? Oes darnau neu luniau doniol sy'n aros yn y cof?
- Sut fyddech chi'n disgrifio'r siop? Beth sy'n gwneud y siop yn un arbennig iawn?
- Mae'r nofel hon yn llawn antur. Ydych chi'n hoff o straeon anturus?
- A wnaeth y stori gwrdd â'ch disgwyliadau, ar ôl darllen y broliant ac edrych ar y clawr? Hoffech chi ei darllen eto yn y dyfodol?

## Gweithgareddau sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

'Mae gan bopeth yn fy siop stori i'w ddweud' meddai'r Barwn ar dudalen 41. Beth am feddwl am wrthrych eich hun a chreu llinell neu fwrdd stori – efallai mewn arddull nofel graffig – yn adrodd hanes a hud y gwrthrych? Dyma ambell syniad i'ch hysbrydoli: cist aur, oriawr, map, cragen, hadau, carped hud neu gleddyf.

**Neu:**

Beth am ddylunio eich siop eich hun wedi'i ysbrydoli gan Siop Straeon Barwn E. Bychnod y Pumed? Gall eich siop gynnwys unrhyw beth o'ch dewis – felly byddwch yn greadigol!



## Wedi mwynhau *Gerwyn Gwrthod a'r Llyfr Does Neb yn Cael ei Ddarllen*? Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?



- *Harri Puw a'r Bocs Breuddwydion* – Rhian Cadwaladr – Gwasg Carreg Gwalch
- *Astronot yn yr Atig* – Megan Angharad Hunter – Y Lolfa
- *Marf a'r Robot Mawr* – Alex Falase-Koya – Atebol
- *Llyfr Sgrap Macs Sion* – Mari Lovgreen – Y Lolfa
- *Seren Wib* – Chanté Timothy – Atebol

Adnabod Awdur

# Siôn Tomos Owen



**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?** Treorci, Rhondda Fawr. Bwthyn Fferm Glyncolli a nawr dwi yn *downtown* Treorci yn y tai teras.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?** Ysgol Gynradd Gymraeg Ynyswen ac yna Ysgol Gyfun Cymer, sydd bellach Ysgol Gyfun Cwm Rhondda.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?** Roeddwn i'n dwlu bod gyda'n ffrindiau bob dydd, celf, rygbi, pêl-fasged, gwneud gwaith cwrs Lefel A yn byncio yn y clwb Snwcer yn Porth. Roeddwn i'n casáu Maths, Cemeg ac arholiadau.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?** Roeddwn i eisiau bod yn artist ond os oeddech chi wedi dweud wrth Sioni bach saith mlwydd oed bysen i'n tynnu lluniau ac yn eu hanfon drwy'r awyr i bobl ar draws y byd i'w gweld nhw ar eu ffonau... ac i gyd yn y Gymraeg, bysen i byth wedi'ch credu chi!

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?** Gafodd *Matilda* gan Roald Dahl effaith mawr arna i achos doeddwn i ddim yn hoffi darllen cyn i mi ddarllen am y ferch fach glyfar oedd yn dial ar oedolion creulon.

**Beth yw eich diddordebau?** Dwi'n caru darllen pob math o lyfrau – comics, barddoniaeth, ffeithiol, ffuglen – a dwi'n dwlu ar gyfresi teledu a ffilmiau. Dwi hefyd yn chwarae gitâr ac yn hoffi sgwennu a recordio caneuon.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?** Bwyta bwyd a diod diddorol, coginio, paned o goffi cyntaf y bore, nofio yn y môr... a rhoi fy nhraed noeth mewn gwair oer ar ddiwrnod poeth.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?** Sbwrgis! Dwi ddim yn deall sut mae pobl yn dal i daflu sbwriel dros y lle – moch! Celwydd a phobl gyfoethog hunanol sydd ddim ond yn meddwl amdanyn nhw eu hunain.

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?** Dwi wastad wedi joio sgwennu. Pan oeddwn i'n fach roeddwn i'n sgwennu barddoniaeth a straeon. Astudiais i sgwennu creadigol yng Ngholeg y Drindod a joio sgwennu ar y trên 'nôl adre, a phan oeddwn i'n casáu gweithio mewn swyddfa roeddwn i'n arfer rhedeg lan y mynydd amser cinio a sgwennu pan oeddwn i'n cyrraedd y goedwig.

# Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**

Matilda gan Roald Dahl.

**Hoff gymeriad o lyfr?**

Ceridwen o gyfres Rwdlan – mae ganddi dŷ wedi ei wneud o lyfrau!

**Hoff air?**

Ansbaradigaethus.

**Hoff fwyd?**

Pitsa peperoni, cyw iâr, tsili ac ansiofis, neu basta gyda chimwch a chorgimwch... neu wystrys!

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**

It's a Wonderful Life, ffilm Nadolig ond dwi'n ei gwylio drwy'r flwyddyn. A Band of Brothers, cyfres am griw o Gwmni Easy yn Amercia yn yr Ail Ryfel Byd.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**

Fy nheulu a bwyd a diod da.

**Superpower o ddewis?**

Gallu siarad unrhyw iaith.

**Hoff le?**

Treorci.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**


Instagram.

**Swydd tasech chi ddim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**

Perchennog siop lyfrau sy'n gwerthu coffi ac yn chwarae cerddoriaeth jazz. Arogl coffi a llyfrau yn yr un lle!

**Top tip i ddarpar awduron?**

Sgwennwch... ond stopiwch am ginio.



## Gwen ac Arianrhod

**Lleucu Gwenllian**


Gwasg Carreg Gwalch | 978-1-845278-66-3

Dydi symud i ysgol newydd byth yn hawdd; mae'n anoddach fyth pan nad ydach chi'n ffitio i mewn. Digon diflas ydy bywyd wedi bod i Gwen ers iddi symud i Gricieth – mae'r tywydd yn wael, does ganddi ddim ffrindiau, ond yn waeth na dim – mae ganddi ffobia o nofio erbyn hyn. Hiraetha am ei bywyd yng Nghaerdydd, ac yn fwy na hynny, mae hi'n colli ei ffrind gorau, Non.

### Cwestiynau trafod sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Nofel graffig ydy *Gwen ac Arianrhod*. Ydych chi wedi darllen llyfr graffig o'r blaen? Ydych chi'n hoffi nofelau graffig? Allwch chi feddwl am unrhyw fathau eraill o lyfrau?
- Beth yw eich barn chi am y darluniau sydd yn y llyfr? Ydych chi'n hoffi darlunio?
- Oes gennych chi hoff ddarluniad yn y llyfr? Pam?
- Arianrhod yw tywysoges Cantre'r Gwaelod. Allwch chi wneud gwaith ymchwil i ddarganfod mwy am Cantre'r Gwaelod?
- Pa ffeithiau ydych chi'n eu gwybod am greaduriaid y môr? Pa ffeithiau allwch chi eu darganfod trwy edrych mewn llyfrau ac ar-lein?
- Mae Gwen wedi syrffedu ar ei bywyd newydd yng Nghricieth ac yn hiraethu am Gaerdydd. Meddyliwch am y math o deimladau sy'n gallu effeithio arnon ni pan rydyn ni'n wynebu sefyllfa newydd. Pa gyngor fyddech chi'n ei gynnig i rywun sy'n ymdopi â sefyllfa hollol newydd? Sut gallwch chi helpu ffrind sy'n hiraethu am eu cartref?

- Allwch chi greu rhestr o'r gwahaniaethau a'r tebygrwydd rhwng byw mewn dinas a byw mewn tref/pentref?
- Darllenwch froliant y llyfr. Yna, mewn grwpiau, beth am drafod beth mae'r gair 'cartref' yn ei olygu i chi? Yna, beth am wneud yr un peth gyda'r gair 'cyfeillgarwch' neu 'hunanhyder'?
- Sut fath o gymeriad ydy Gwen? Beth am Arianrhod? Pa eiriau allwch chi eu defnyddio i'w disgrifio nhw?
- Sut ydych chi'n meddwl roedd Gwen yn teimlo ar ddechrau'r stori? Sut oedd hi'n teimlo erbyn diwedd y stori? Beth ddigwyddodd i newid ei theimladau hi?



## Gweithgareddau sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad


Gan fod mwy o ddarluniau na geiriau mewn nofel graffig, beth am ysgrifennu crynodeb o'r stori gan ddefnyddio'r trydydd person neu o safbwynt cymeriad arall? Allwch chi ddefnyddio'r darluniau i'ch helpu, a geiriau disgrifiadol a chreadigol i liwio'ch gwaith.

**Neu:**

Tudalennau 35–8: Mae Gwen yn wybodus iawn am byllau trai gogledd Cymru ac anifeiliaid y môr. Beth am ddewis anifail ac ewch ati i greu proffil manwl ohono. Gallwch dynnu llun neu argraffu llun o'r anifail ac yna ychwanegu blychau gwybodaeth o amgylch y llun. Pa nodweddion sydd gan yr anifail a pham eu bod yn bwysig? Darganfyddwch gymaint ag y gallwch.

## Wedi mwynhau *Gwen ac Arianrhod*? Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?

- *Melys, Moes... Mangos* – Kereen Getten – Rily
- *Daear Dyner* – Sita Brahmachari – Y Lolfa
- *Helô! Heulwen Dwi* – G. M. Linton – Rily
- *Darllen yn Well: Byd Frankie* – Aoife Dooley – Graffeg
- *Cyfrinach Betsan Morgan* – Gwenno Hywyn – Y Lolfa



Adnabod Awdur

# Lleucu Gwenllian



**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?** Blaenau Ffestiniog.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?** Blaenau Ffestiniog.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?** Roeddwn i'n hoffi dysgu, ond yn casáu gorfod siarad o flaen y dosbarth – lot gwell gen i roi fy mhen mewn llyfr.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?** Artist, wedyn dylunydd ffasiwn, wedyn *interior designer*, wedyn gwyddonydd, ac wedyn artist unwaith eto.

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?** Roeddwn i'n caru cyfresi Harry Potter, Percy Jackson ac Inkheart, ac yn hoff iawn o *Hi yw fy Ffrind*, *Chwaer Fawr Blodeuwedd*, *Trwy'r Darlun*, *Eira Mân, Eira Mawr*...

**Beth yw eich diddordebau?** Darllen, ieithoedd tramor a dringo mynyddoedd.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?** Brechdan gaws ar ben mynydd.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?** Pobl sy'n methu ciwio.

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?** Roeddwn i'n licio sgwennu a darlunio straeon bach pan oeddwn i'n blentyn, ond roeddwn i'n talu lot mwy o sylw i'r ochr gelf o bethau. Doeddwn i 'rioed wedi meddwl 'mod i'n dda iawn am sgwennu, ond ym Mlwyddyn 11 cefais fynychu cwrs yn Nhŷ Newydd efo criw o bobl ifanc eraill o wahanol ysgolion, a ges i wobr o'r ysgol wnaeth ganiatáu i fi gael sesiynau mentora efo Bethan Gwanas. Mi wnaeth hynny helpu gyda'm hunanhyder, a gwneud i mi feddwl bod sgwennu yn rhywbeth y gallwn i ei wneud go iawn!

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?** Nunlle a phob man – mae talu sylw i eiliadau bach, di-nod bywyd pob dydd yn ffordd wych o gael syniadau!

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?** Straeon am deulu a chyfeillgarwch, natur, hud a lledrith a chwedloniaeth.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?** Pan dach chi'n styc, ewch am dro.

**Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn awdur?** Gallu ymgolli mewn byd gwahanol!

# Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**

Alla i ddim dewis!

**Hoff gymeriad o lyfr?**

Luna Lovegood.

**Superpower o ddewis?**

Gallu stopio amser (mwy o amser i ddarllen a darlunio).

**Hoff fwyd?**

Caws ar dost.

**Hoff le?**

Copa Moelwyn Mawr.

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**

*Nausicaa of the Valley of the Wind.*

**Hoff air?**

Kokoshka ('iâr' yn iaith Macedonia).

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**

Fy nghŵn, Celt a Twffi – maen nhw mor wirion!

**Swydd tasech chi ddim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**

Arweinydd mynydd.

**Top tip i ddarpar awduron?**

Peidiwch â gadael i neb (gan gynnwys chi eich hun) ddinistrio eich hunanhyder.




## Zac a Jac

**Cathy Jenkins**

Graffeg | 978-1-802586-61-9

Mae Jac yn naw oed ac yn edrych ar ei dad fel arwr, ond wedi i Jac ymuno â thîm pêl-droed lleol gyda'i ffrind gorau Zac, mae pethau'n dechrau mynd braidd yn rhyfedd gartref. Pan fo criw o bêl-droedwyr proffesiynol yn dod i'r ysgol i siarad am hiliaeth, mae Jac yn sylweddoli beth allai problem ei dad fod. Rhan o gynllun Rhyngom.

### Cwestiynau trafod sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Ydych chi'n hoffi pêl-droed? Pa chwaraeon eraill ydych chi'n hoffi a pham?
- Mae sawl enghraifft o hiliaeth yn y stori. Dewch o hyd iddyn nhw yn y llyfr a'u trafod fel dosbarth. Pam mae hiliaeth yn annerbyniol? Beth all bawb wneud i fod yn wrth-hiliol?
- Mewn twrnameintiau pêl-droed (a nifer o gampau eraill), mae'r canlyniadau a'r pwyntiau yn cael eu cofnodi mewn tabl. Ydych chi'n gwybod pa ystadegau sy'n cael eu cofnodi? Sut mae cyrraedd brig y tabl?
- Enw pennod un yw 'Fy Arwr'. Oes gennych chi arwr? Yn eich barn chi, beth sy'n gwneud rhywun yn arwr?
- Mae yna restr o weithgareddau yng nghefn y llyfr. Ydych chi'n hoffi'r syniad hynny? Gallwch chi feddwl am unrhyw weithgareddau eraill i'w hychwanegu at y rhestr?
- Sut mae pêl-droed yn effeithio ar Zac? Beth am Jac? Beth am eu teuluoedd?

- Beth ydy'r prif themâu yn y llyfr? Allwch chi ddod o hyd i enghreifftiau?
- Oeddech chi'n gwybod am Windrush neu boicot bysiau Bryste cyn darllen y nofel? Beth am wneud gwaith ymchwil i ddysgu mwy am yr hanes?
- Beth sy'n dod i'ch meddwl pan ydych chi'n meddwl am y gair 'cydraddoldeb'? Beth am drafod hynny mewn grwpiau bach?
- Mae gan bob pennod enw. Ydych chi'n hoffi'r syniad hwn? Beth mae enwi pennod yn ychwanegu at y profiad o ddarllen?

## Gweithgareddau sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

Mae caneuon yn rhan fawr o gemau pêl-droed. Beth am gyfansoddi penillion y gallech chi eu canu yn ystod gêm?

**Neu:**

Beth am ddylunio cit ar gyfer tîm pêl-droed lleol a thîm Cymru (menywod neu ddynion) ar gyfer gemau cartref a gemau oddi cartref?






## Wedi mwynhau *Zac a Jac*? Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?

- *Un Gêm, Dwy Stori* – Siân Lewis – Gwasg Carreg Gwalch
- *Fi ac Aaron Ramsey* – Manon Steffan Ros – Y Lolfa
- *Ein Cymru ni – Straeon am Amrywiaeth a Pherthyn* – Haf Llewelyn, Gail Sequeira, Richard Parks, Chantelle Moore – Atebol
- *Ymlaen â Hi! Menywod Cymru ym Myd y Campau* – Elen Williams – Gwasg Carreg Gwalch
- *Campau Campus: 1. Pêl-droed Penigamp* – Robin Bennett – Gwasg Firefly

Adnabod Awdur

# Cathy Jenkins



**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?** Abertawe.
**Ble aethoch chi i'r ysgol?** Ysgol Gynradd Waunarlwydd ac Ysgol Gyfun Gŵyr. Es i wedyn i Goleg Cerdd a Drama Cymru yng Nghaerdydd i astudio Cerddoriaeth a Drama.
**Beth oedd y peth gorau/y peth gwaethaf i chi am yr ysgol?** Roeddwn i wrth fy modd yn gwneud unrhyw beth yn gysylltiedig â drama, a hefyd canu ac ysgrifennu creadigol. Roeddwn i'n casáu maths.
**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?** Seren bop!
**Beth yw eich diddordebau?** Ysgrifennu a darllen, wrth gwrs, ond dwi hefyd yn mwynhau cerdded a dwi'n mynd i'r gampfa yn rheolaidd.
**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?** Roeddwn i wedi gwirioni ar straeon cyfres Ladybird a'r darluniau gwych ynddyn nhw.
**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?** Ers o'n i'n blentyn, roedd gen i deimlad y gallwn i ysgrifennu llyfr, ond roeddwn i'n fy mhedwardegau yn dechrau ysgrifennu! Unwaith yr es i ati, tyfodd y teimlad mai dyma beth roeddwn am ei wneud yn fy mywyd.
**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?** Mae'r berthynas rhwng rhieni a'u plant yn ymddangos yn aml yn fy ngwaith i. Dwi'n meddwl mai'r rheswm dros hyn yw bod dod yn rhiant wedi cael effaith fawr arna i – mae dod yn rhiant yn newid y ffordd rydych chi'n edrych ar y byd.
**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?** Dwi'n gwybod bod hyn yn swnio'n ystrydebol, ond daliwch ati a pheidiwch anobeithio. Bydd eich gwaith yn cael ei wrthod, ond mae hynny'n rhan o'r profiad. Cafodd fy ngwaith i ei wrthod droeon dros y blynyddoedd, ond roeddwn i'n gwybod na fyddwn i'n rhoi'r gorau i ysgrifennu tan y diwrnod y byddwn yn dal llyfr â fy enw i arno yn fy llaw. Mae'n werth yr ymdrech yn y diwedd!
**Oes gennych chi unrhyw arferion pan fyddwch chi'n ysgrifennu?** Mae'n rhaid i fi gael llonydd llwyr a llawer o goffi!

# Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**

Er na ddarllenais y llyfr pan oeddwn i'n blentyn, fy hoff lyfr i blant yw Goodnight Mr Tom gan Michelle Magorian.

**Hoff gymeriad o lyfr?**

Zero yn Holes.

**Superpower o ddewis?**

Y gallu i fod yn anweledig.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**

Yr haul a thywydd poeth.

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**

Dwi wedi gwirioni ar y gyfres The Handmaid's Tale, a Hairspray yw fy hoff ffilm.

**Hoff le i ysgrifennu?**

Yn y gegin.

**Hoff fwyd?**

Hufen iâ Joe's gyda sbrincyls siocled drosto – mae'n draddodiad yn Abertawe!

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**


Dwi ddim yn hoff o gyfryngau cymdeithasol er bod gen i gyfrif Instagram.

**Swydd tasech chi ddim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**

Gwell i fi ddweud athrawes, gan mai dyna yw fy swydd i!

**Top tip i ddarpar awduron?**

Daliwch ati. Credwch yn eich syniadau; peidiwch eu cymharu â rhai unrhyw un arall.




## ABC yr Opera: Academi Benwan y Cyfansoddwyr – Clasurol

**Mark Llewelyn Evans**

Graffeg | 978-1-913634-25-4

Ar drip ysgol i'r Amgueddfa Hanes Genedlaethol yn Llundain, mae Jac a Megan yn cyfarfod eu hen ffrind, Cist. Mae'r tri'n mynd ar wib yn ôl i Academi Benwan y Cyfansoddwyr ac i ddinasoedd Salzburg, Fienna a Pharis, gan fentro ar antur arall i fyd yr opera – ac i'r Cyfnod Clasurol (1750–1820) y tro hwn.

### Cwestiynau trafod sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Mae'r llyfr yn dathlu cantorion o fyd yr opera, ond allwch chi feddwl am unrhyw ddawnswyr enwog? Pa ddawnsfeydd enwog allwch chi eu henwi? Ac o ba le/gwlad maen nhw'n dod? Er enghraifft, mae'r salsa yn dod o...
- Beth oeddech chi'n gwybod am fyd yr opera cyn darllen y llyfr?
- Ydych chi wedi dysgu mwy am fyd yr opera trwy ddarllen y llyfr?
- Mae'r llyfr yn rhan o gyfres. Ydych chi wedi darllen y llyfrau eraill yn y gyfres? Hoffech chi?
- Allwch chi wneud gwaith ymchwil i gymharu hanes y byd opera gyda phwnc neu *genre* cerddorol arall, e.e. hanes roc-a-rôl neu gerddoriaeth werin?
- Mae Jac a Megan yn mynd i ddinasoedd gwahanol yn y llyfr. Oeddech chi wedi clywed am ddinasoedd Llundain, Salzburg, Fienna a Pharis? Ydych chi wedi dysgu unrhyw beth amdanyn nhw?
- Pa ddinasoedd eraill ydych chi'n gwybod amdanyn nhw? Sut maen nhw'n cymharu â dinasoedd Cymru?

- Ydych chi'n mwynhau antur? Pa fath o anturiaethau ydych chi wedi eu cael?
- Mae'r llyfr yn canolbwyntio ar y Cyfnod Clasurol, sef 1750–1820. Beth arall ddigwyddodd yn ystod y blynyddoedd hynny?
- Ydych chi'n hoffi hanes? Oes gennych chi hoff gyfnod o hanes? Pam?



## Gweithgareddau sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

Beth am greu llun cysylltu'r dotiau o Cist neu offeryn yn y llyfr, neu hunanddewisiad, ac yna cyfnewid eich llun â ffrind i'w gwblhau? Gallwch ddefnyddio dotiau neu rifau! Gallwch hefyd gynnwys disgrifiad neu gerdd i gyd-fynd â'ch llun.

**Neu:**

Fel grŵp neu ddosbarth cyfan, beth am greu fideo miwsig i'r gân o'r llyfr neu hunanddewisiad? Gwrandewch ar y gân yn y dosbarth, dysgu'r geiriau, ac yna perfformio'r gân o flaen y camera! Bydd yn rhaid i chi olygu'r fideo a dangos y clip gorffenedig ar y sgrin fawr o flaen yr ysgol gyfan!




## Wedi mwynhau *ABC yr Opera: Academi Benwan y Cyfansoddwyr – Clasurol*? Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?

- *Cyfres ABC yr Opera* – Mark Llewelyn Evans – Graffeg
- *Cymry o Fri* – Jon Gower – Y Lolfa
- Cyfres *Dosbarth Miss Prydderch* – Mererid Hopwood – Atebol
- *Arwana Swtan a'r Sgodyn Od* – Angie Roberts, Dyfan Roberts – Gwasg y Bwthyn
- *Nadolig y Gath yn Sain Fagan* – Myrddin ap Dafydd – Gwasg Carreg Gwalch

Adnabod Awdur

# Mark Llewelyn Evans



**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?** Caerfyrddin – cartref dreigiau, cennin Pedr, a chiniawau ysgol amheus.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?** Ysgol Cambria y Frenhines Elizabeth, Caerfyrddin – 'QE High' heddiw. (Newidiwyd yr enw ar ôl i fi adael. Cyd-ddigwyddiad?)

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?** Roeddwn i'n casáu'r ysgol! Doeddwn i ddim yn gallu darllen yn dda o gwbl, ond fi oedd y bachgen cyntaf i sefyll arholiad Lefel O (TGAU heddiw) mewn coginio. Ac roeddwn i'n gallu gwneud i bobl chwerthin, sy'n gamp, on'd yw e?

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?** Plismon.

**Beth yw eich diddordebau?** Rhedeg, gwylio ffilmiau a choginio bwyd bwytadwy (neu ychydig yn arbrofol).

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?** Cyfres Famous Five. Timmy y ci oedd fy arwr.

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?** Wnes i ddim! Fe ddechreuodd y cyfan wrth ymweld ag ysgolion a chael plant yn gofyn am ragor o straeon. Cefais fy ngorfodi i ysgrifennu gan blant wyth mlwydd oed!

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?** Antur, gwybodaeth, hwyl... ac ychydig bach o hyfdra.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?** Mae gan bawb stori i'w dweud. Dwi'n ei chael hi'n anodd canolbwyntio, a gall ysgrifennu fod yn unig, ond pan mae'r hud a lledrith yn digwydd, mae'r cyfan yn werth yr ymdrech.

**Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn awdur?** Y tawelwch. Mae'n wych – hyd nes i chi ddechrau clywed hanes eich bywyd yn cael ei adrodd yn ddramatig yn eich pen.

# Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**

Llyfrau Enid Blyton.

**Hoff gymeriad o lyfr?**

Tintin (yn bennaf oherwydd y gwallt).

**Superpower o ddewis?**

y gallu i deithio yn ôl ac ymlaen mewn amser – neu'r gallu i fod yn glên, ac mae'r pŵer hwnnw gyda ni i gyd yn barod.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**

Pobl yn bod yn bobl.

**Hoff fwyd?**

Cyrri, neu stecen a sglodion.

**Hoff le i ysgrifennu?**

Ger y môr (yn bwyta byrbrydau).

**Top tip i ddarpar awduron?**

Peidiwch byth ag ildio. Amdani, blant Cymru!

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**

Dwi ddim yn dda iawn gyda'r rheiny. Ydy tost yn blatfform?

**Swydd tasech chi ddim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**

Canwr opera sy'n berchen ar deli ar lan y môr.

# GORNEST LYFRAU 2026

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

Wedi'i drefnu a'i gydlynu gan Gyngor Llyfrau Cymru